Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
South Wales Police and Crime Commissioner

# ARIANNU DIOGELWCH **GYDA'N GILYDD**


Canlyniadau Ymgynghoriad Praesept

## CYFLWYNIAD

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu sy'n gyfrifol am bennu cyllideb flynyddol yr heddlu a phraesept y dreth gyngor yn Ne Cymru. Mae'r gyllideb hon yn ariannu gwasanaeth yr heddlu, ond mae hefyd yn ariannu mentrau penodol sy'n helpu i leihau troseddu a chefnogi gwasanaethau i ddioddefwyr ledled De Cymru. Cyn i'r Comisiynydd wneud penderfyniad ar gyllideb yr heddlu ym mis Ionawr 2026, lansiodd ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn deall i ba raddau y mae preswylwyr yn cefnogi'r cynnydd arfaethedig, er mwyn sicrhau bod cydbwysedd teg rhwng yr hyn sydd ei angen a beth y gall pobl ei fforddio. Tra'n aros am gadarnhad gan Lywodraeth y DU, paratowyd tri chynnydd arfaethedig yn seiliedig ar senarios cyllido gwahanol ac, felly, roedd cryn ansicrwydd a nifer o ryngddibyniaethau o ran union lefel y cyllid y byddai Heddlu De Cymru yn ei chael.

## CRYNODEB O'R YMGYNGHORIAD

**Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus dros gyfnod o wyth wythnos:**




**Fe'i darparwyd mewn fformatau gwahanol, sef:**

- Hawdd ei Ddeall
- Copi papur
- Saesneg a Chymraeg
- Print bras

**Fe'i hyrwyddwyd mewn sawl ffordd:**

### CYFRYNGAU CYMDEITHASOL



Fe'i **postiwyd 75 o weithiau** ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol, a oedd yn cynnwys **saith hysbyseb y talwyd amdanynt.** Arweiniodd hyn at:

- **122,331 o argraffiadau** sawl gwaith y cafodd ei weld ar y sgrin
- **1,297 o ymgysylltiadau** (adweithiau, achosion o rannu, edrych ar luniau a sylwadau)
- **1,085 o gliciau ar y ddolen i'r arolwg**

### DOSBARTHU DRWY E-BOST



Fe'i dosbarthwyd i fwy na **1,000 o randdeiliaid**, a oedd yn cynnwys:


- **aelodau etholedig**
- **awdurdodau lleol**
- **grwpiau cymunedol**
- **gwasanaethau a gomisiynwyd**
- **sefydliadau yn y trydydd sector**
- **gwirfoddolwyr.**

### WYNEB YN WYNEB



Cafodd cyfres o stondinau dros dro eu trefnu a'u staffio gan aelodau o'r tîm er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth ac annog pobl i gymryd rhan. Yn ystod y cyfnod hwn, rhoddodd 55 o unigolion adborth drwy nodi'r cynnydd arfaethedig roeddent yn ei gefnogi, os o gwbl.

### GWEFAN



Postiwyd erthygl newyddion yn cyhoeddi lansiad yr arolwg ar ein gwefan ac roedd iddi le blaenllaw ar yr hafan drwy gydol y cyfnod ymgynghori.

## CANLYNIADAU'R AROLWG

**Cymerodd**

# 620

**o bobl ran yn yr ymgynghoriad**

**Cwblhaodd 548 o bobl yr arolwg ar-lein/copi papur**


**Rhanodd 55 o bobl eu hadborth wyneb yn wyneb**

**Nid oedd 17 o bobl yn gymwys i gwblhau'r arolwg am eu bod yn byw y tu allan i ardal Heddlu De Cymru.**

Mae'r canlyniadau canlynol yn adrodd ar ganfyddiadau'r ymatebion a gwblhawyd

## NIFER YR YMATEBION FESUL SIR

Dengys y map isod nifer a chanran yr ymatebwyr a oedd yn byw ym mhob sir. Daeth y nifer mwyaf o ymatebion o Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot a chafwyd y nifer lleiaf o Gaerdydd.





## CYFYNGAU HYDER


Defnyddiwyd cyfyngau hyder i ddangos mai amcangyfrifon yw canlyniadau'r arolwg yn hytrach na'r union ffigurau. Cafodd arolwg y praesept 548 o ymatebion a gwblhawyd ar-lein. Dengys gwaith dadansoddi fod i'r canlyniadau gyfwng hyder o 4.13, sy'n golygu y gallai gwir lefel y gefnogaeth fod hyd at 4.13 pwynt canrannol yn uwch neu'n is na'r ffigurau a gofnodwyd. Er enghraifft, os oedd 42% o'r ymatebwyr yn cefnogi cynnydd, gallai gwir lefel y gefnogaeth fod rhwng 38% a 46%.


## CYNNYDD ARFAETHEDIG I BRAESEPT YR HEDDLU


Er mwyn sicrhau bod gan breswylwyr ddigon o amser i edrych ar gynigion y Comisiynydd a'u hystyried cyn i benderfyniad gael ei wneud, datblygwyd tri chynnydd arfaethedig yn seiliedig ar senarios cyllido gwahanol. Gofynnwyd i breswylwyr nodi p'un a oeddent yn cefnogi pob opsiwn a oedd yn cael ei ystyried ai peidio. Ar gyfer pob cynnydd arfaethedig, nododd mwy na 50% o'r ymatebwyr nad oeddent yn cefnogi'r cynnydd, gyda lefelau'r gefnogaeth yn gostwng wrth i'r swm arfaethedig gynyddu.

Mae'r siartiau isod yn cyflwyno nifer a chanran yr ymatebion ar gyfer pob cynnydd arfaethedig:








Fel opsiwn amgen i'r arolwg, gwahoddwyd aelodau o'r cyhoedd a ymgysylltodd â thîm y Comisiynydd mewn digwyddiadau stondinau dros dro i roi adborth drwy bleidleisio ar y cynnydd roeddent yn ei ffafrio neu nodi nad oeddent yn cefnogi unrhyw gynnydd.

Dengys y siart ddosbarthiad y pleidleisiau ynghylch y tri chynnydd arfaethedig.



Er mwyn ein helpu i ddeall y rhesymau pam roedd pobl naill ai'n 'gefnogol' neu'n 'anghefnogol' i'r tri chynnydd arfaethedig, cafodd yr ymatebwyr gyfle i rannu eu hadborth â ni drwy destun rhydd. Ymatebwyr a oedd yn cefnogi cynnydd:

**Ymatebwyr a gefnogodd cynnydd:**

**£2.25**

Roedd cefnogaeth i'r cynnydd o £2.25 yn amodol ar y cyllid yn cael ei wario ar blismona gweladwy, dealltwriaeth glir o'r ffordd y byddai'r cyllid yn cael ei ddyrannu a hyder bod sylw yn cael ei roi i wastraff. Tynnodd adborth trawsbynciol sylw at awydd i weld mwy o "swyddogion ar batrôl", pryderon ynghylch effeithlonrwydd gwariant a galwadau am fwy o dryloywder, archwiliadau a chanlyniadau amlwg. Roedd fforddiadwyedd hefyd yn destun pryder i rai ymatebwyr, yn arbennig yng nghyd-destun costau byw cynyddol.
Mae'r adborth isod yn dangos rhai o'r pwyntiau hyn ymhellach:

> "Rwy'n deall bod yn rhaid i ni gyfrannu at blismona De Cymru. Fodd bynnag, yn fy marn i, gellid gwneud mwy i arbed arian gyda'r heddlu ei hun."

> "Nid oes unrhyw esboniad na dadansoddiad o'r ffordd y mae'r gyllideb bresennol yn cael ei gwario ac a yw hyn yn cael ei archwilio gydag ystyriaethau o ran y gwerth gorau am arian."

> "Gwn fod angen i ni ariannu'r heddlu ond gorau po leiaf y mae'n cynyddu ac, os bydd yn cynyddu, hoffwn weld mwy o swyddogion yr heddlu yn y dref"

> "Mae popeth yn cynyddu, mae'r dreth gyngor eisoes wedi cynyddu, mae prisiau bwyd wedi cynyddu yn y siopau, yr unig beth nad yw wedi cynyddu mewn termau real yw cyflog."

**£2.50**

Nododd yr ymatebwyr hynny a oedd yn cefnogi'r cynnydd o £2.50 y byddent yn fwy parod i'w dalu petai cyllid yn cael ei flaenoriaethu tuag at wasanaethau rheng flaen a phetai mwy o dryloywder ynghylch y defnydd effeithlon o adnoddau. Fodd bynnag, lleisiodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch fforddiadwyedd, gan nodi effaith gronnol costau cynyddol a phwysau ariannol ar deuluoedd.
Mae'r adborth isod yn dangos rhai o'r pwyntiau hyn ymhellach:

> "Am fod yr argyfwng costau byw eisoes wedi cyrraedd y lefel uchaf erioed, mae'n anodd talu biliau fel y mae. Y cynnydd o £2.50 y mis yw'r swm uchaf y gallai cyllideb ein haelwyd ei fforddio. Mae'r cynnydd mewn biliau yn rhoi pwysau parhaus ar deuluoedd incwm isel."

> "Ymddengys nad yw plismona yn y gymdogaeth yn bodoli yn fy ardal. Byddwn i'n meddwl mai'r un yw'r sefyllfa ledled De Cymru yn gyffredinol. Yn fy marn i, dylai arian gael ei ddarparu i gynyddu hyn, gan helpu i atal troseddu, gwella cyfathrebu, rhoi rhywfaint o hyder i'r boblogaeth, ac ati."

> "Rhaid i unrhyw gynnydd fod yn gymesur ac, felly, yn fy marn i, mae'n bwysig bod unrhyw gynnydd ond yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gwasanaethau rheng flaen. Dylai gwariant cyfalaf ddod o'r cyllid o lywodraeth ganolog."

**£2.75**

Cydnabu ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynnydd o £2.75 y pwysau ariannol y mae gwasanaethau cyhoeddus yn eu hwynebu a bod adnoddau'r heddlu o dan ormod o bwysau. Er eu bod yn derbyn cynnydd bach, roedd pwyslais cryf ar sicrhau bod cyllid yn cyflawni canlyniadau mesuradwy, yn rhoi blaenoriaeth i fuddsoddi mewn gwasanaethau rheng flaen ac yn cael effaith weladwy. Roedd cefnogaeth gref hefyd o blaid rhoi blaenoriaeth i ddulliau atal ac ymyrryd yn gynnar a gweithgarwch penodol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, dwyn o siopau a throseddau gwledig.
Mae'r adborth isod yn dangos rhai o'r pwyntiau hyn ymhellach:

> "·Mae'r tangyllido wedi golygu bod llawer i'w wneud er mwyn sicrhau bod yr heddlu yn addas at y diben eto. Byddwn i'n cefnogi cynnydd mewn trethi er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd. OND hoffwn weld y cyllid hwn yn cael ei glustnodi at y diben hwn a gweld data monitro rheolaidd ar y ffordd y mae'n cael ei wario. Fy mhryder i yw y caiff trethi eu cynyddu ond y caiff arian ei wastraffu ac na fyddwn yn gweld y newid a addawyd i ni."

> "Nid oes digon o adnoddau i sicrhau plismona effeithiol a gweithredu ystyrlon yn y gymuned ac mae angen eu cyllido'n well, ond mae'n hanfodol bod cyllid yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd dryloyw lle mae'n cyfrif fwyaf i'r rhan fwyaf o breswylwyr. Byddwn i'n fwy na pharod i dalu ychydig yn fwy i gael dinas fwy diogel, ond caiff hyder ei golli'n gyflym os caiff arian ei gamwario ar faterion nad ydynt yn berthnasol i fy mywyd."

> "·Mae unrhyw beth sy'n gwella'r gallu i wella diogelwch a hybu mentrau paratoi at y dyfodol yn werth ei ariannu, yn fy marn i. Felly, mae heddlu mwy gweladwy, mwy o fentrau a mentrau gwell i leihau troseddau ieuenctid a mynd i'r afael â throseddu a thrais a chefnogi ardaloedd gwledig sy'n wynebu problemau dwyn, hela gan ddefnyddio lampau ac ati yn werth y cyllidebu ychwanegol."

**Ymatebwyr nad oeddent yn cefnogi unrhyw gynnydd:**

Mynegodd ymatebwyr nad oeddent yn cefnogi'r un o'r tri chynnydd arfaethedig gryn rwystredigaeth ag ansawdd gwael canfyddedig y gwasanaeth a'r ffaith mai ychydig iawn o bresenoldeb sydd gan yr heddlu yn eu hardaloedd lleol. Arweiniodd pwysau ariannol, ynghyd â diffyg ymddiriedaeth, at y farn y dylai gwelliannau i'r gwasanaeth ragflaenu unrhyw gais am gyllid ychwanegol. Tynnodd adborth sylw at amheuon mawr ynghylch effeithiolrwydd yr heddlu, gyda phryderon yn cael eu lleisio ynghylch y ffaith nad yw'r heddlu yn ymchwilio i droseddau ac oedi cyn ymateb. Roedd cred gref hefyd mai llywodraeth ganolog ddylai fod yn gyfrifol am ariannu'r heddlu yn hytrach na'r dreth gyngor leol, ynghyd â chanfyddiadau o wariant gwastraffus ar rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Mae'r adborth isod yn dangos rhai o'r pwyntiau hyn ymhellach:

## ANFODLONRWYDD AR Y GWASANAETH A GEIR GAN HEDDLU DE CYMRU

> "O fy mhrofiad i, mae diffyg ymateb o ran materion sy'n ymwneud â'r gymdogaeth. Dim diweddariadau ar droseddau y rhoddwyd gwybod amdanynt a dim presenoldeb ar ein strydoedd. Daw'r gŵyn fwyaf rydych yn ei chlywed gan bobl sy'n dweud "beth yw diben rhoi gwybod am droseddau, ni fydd unrhyw beth yn cael ei wneud"

> "Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith pobl ifanc yn mynd y tu hwnt i reolaeth. Nid yw'r heddlu yn helpu dioddefwyr troseddau casineb ar sail anabledd ac yn bychanu unrhyw achosion o aflonyddu drwy beidio â'u trin fel troseddau casineb. Rydym wedi cael profiad o'r heddlu lleol yn peidio â chymryd camau i fynd i'r afael o ddifrif ag aflonyddu sy'n gysylltiedig â throseddau casineb ar sail anabledd tuag atom. Dydyn ni ddim yn ymddiried yn yr heddlu mwyach ac rydym yn amharod i roi gwybod am unrhyw beth."

> "Mae'r gwasanaeth presennol yn wael ar y gorau, mwy o arian i wneud beth. Ar hyn o bryd, mae'n anodd iawn rhoi gwybod am unrhyw beth ac ymddengys i mi fod gofyn i'r heddlu wneud unrhyw beth yn peri anghyfleustra i rai."

## FFORDDIADWYEDD

> "Does gan bobl ddim mwy i'w roi. Mae incwm wedi cael ei daro o bob ongl gyda chynnydd mewn prisiau ac nid yw cyflogau yn cynyddu yn unol â hynny. Mae pobl yn gorfod gwneud mwy â llai fel y mae ac ni all pobl fforddio unrhyw gynnydd ychwanegol."

> "Am fod costau byw yn cynyddu'n barhaus, byddai unrhyw gynnydd mewn arian sy'n cael ei dalu yn cael effaith fawr ar bobl."

> "Rydym yn talu digon o Dreth Gyngor fel y mae, gyda chostau byw yn cynyddu, ni ellir disgwyl i ni ychwanegu at gyllid yr heddlu drwy'r praesept."

## RÔL COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU

> "Dydw i ddim yn cefnogi unrhyw gynnydd yng ngwariant y Comisiynydd oherwydd, yn lle cael ei wario'n ddefnyddiol ar blismona gweithredol sylfaenol sy'n diogelu cymunedau ac yn ein cadw'n ddiogel, caiff arian ei ddargyfeirio i brosiectau gwastraffus sy'n bodloni blaenoriaethau grwpiau lleiafrifol dylanwadol."

> "Mae'r dreth gyngor yn ddigon uchel, peidiwch â gwastraffu mwy o arian. Mae'r Comisiynydd Troseddu yn wastraff arian ac mae wedi bod yn wastraff arian erioed."

> "Mae swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu bellach yn cael ei chau am ei bod yn wastraff llwyr o arian trethdalwyr ac mae miliynau o bunnau wedi cael eu gwastraffu ar y swydd hon yng Nghymru a ledled y DU."

## DEMOGRAFFEG

Mae casglu data ar amrywiaeth yn ein helpu i ddeall y cymunedau rydym yn eu cyrraedd ac amrywiaeth ymatebion. Caiff y crynodeb demograffig o ymatebwyr a rannodd y wybodaeth hon â ni ei amlinellu isod:

